Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cynghorwyr Annibynnol

## Pecyn Gwybodaeth



www.senedd.cymru

# Croeso

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn bod yn Gynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Senedd.

Mae hwn yn gyfle unigryw i wneud cyfraniad yng nghalon bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Senedd yn chwarae rhan hanfodol o ran llywio dyfodol y genedl — deddfu, dwyn y llywodraeth i gyfrif, a chynrychioli pobl Cymru. Mae Comisiwn y Senedd yn bodoli i alluogi'r gwaith pwysig hwnnw, gan ddarparu'r bobl, y gwasanaethau a'r seilwaith sy'n sail i senedd fodern, effeithiol a dibynadwy.

Fel Cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Senedd, byddwch yn cynnig syniadau annibynnol, her adeiladol a sicrwydd i gefnogi gwaith y Comisiwn o ran cyflawni ei gyfrifoldebau gydag uniondeb, tryloywder ac effaith.

## Pam mae'r rôl hon yn bwysig nawr

Bydd y blynyddoedd i ddod yn allweddol i'r Senedd. Mae disgwyliadau'r cyhoedd o sefydliadau democrataidd yn esblygu'n gyflym gyda ffocws cynyddol ar ymddiriedaeth, tryloywder, cynhwysiant ac ymatebolrwydd. Ar yr un pryd, mae'r Senedd yn parhau i addasu i gyd-destunau cyfansoddiadol, cymdeithasol a thechnolegol sy'n esblygu, gyda'r potensial am ddatblygiadau cyfansoddiadol sylweddol ar y gorwel.

Mewn ymateb, mae'r Comisiwn yn mynd ati i ail-lunio'r ffordd y mae'n gweithio — moderneiddio gwasanaethau, cryfhau llywodraethu a sicrhau ei fod yn barod i ddiwallu gofynion y dyfodol. Mae'r Aelodau'n ganolog i waith y Comisiwn ac rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod ein gwasanaethau'n parhau i ddiwallu anghenion esblygol yr Aelodau, a sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i ymgymryd â'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud.

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith hwn. Byddwch yn cynnig safbwynt allanol, barn gadarn a'r hyder i herio'n adeiladol — gan helpu'r Comisiwn i lywio cymhlethdod, rheoli risg a chadw hyder y cyhoedd.

## Y cyfle

Rydym am benodi hyd am bum Cynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn, i gymryd lle'r ddau ddeiliad swydd presennol sy'n dod i ddiwedd eu tymor ym mis Tachwedd 2026, a'r tri sy'n dod i ddiwedd eu tymor ym mis Tachwedd 2027.

Rydym yn chwilio am feddylwyr profiadol, annibynnol sy'n dod â safbwyntiau amrywiol, arbenigedd proffesiynol a phrofiad byw.

Rydym yn chwilio am ystod o sgiliau ymhlith ein cynghorwyr. Mae'r union gymysgedd o arbenigedd a geisir yn amrywio dros amser i adlewyrchu

blaenoriaethau esblygol y Comisiwn. Yn yr ymgyrch recriwtio hon i benodi o fis Tachwedd 2026, mae'r Comisiwn yn chwilio am rywun sydd â chymhwyster cydnabyddedig mewn cyllid, cyfrifeg neu archwilio ac sydd â phrofiad helaeth mewn un neu fwy o'r meysydd hynny, a rhywun sydd â phrofiad o hyrwyddo a gwreiddio urddas, parch ac ymddygiadau cynhwysol o fewn amgylcheddau sefydliadol a/neu wleidyddol cymhleth, gan gynnwys y gallu i herio diwylliant, ymddygiad a safonau mewn ffordd adeiladol.

Rydym yn annog ceisiadau gan bobl ar bob cam o'u gyrfa, o bob cefndir, cymuned a sector, ac rydym wedi ymrwymo i gael tîm sy'n cynnwys ystod eang o brofiadau a galluoedd. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan unigolion lle nad yw eu profiadau neu eu safbwyntiau yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd mewn rolau cyhoeddus uwch yng Nghymru. Os ydych chi o'r farn bod eich uchelgais yn cyrraedd ein lefelau uchel, edrychwn ymlaen yn fawr at eich cais.

## Rôl werthfawr a dylanwadol

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn gweithredu mewn swyddogaeth gynghorol anwleidyddol i Gomisiwn y Senedd, gan gydweithio'n agos â'i arweinwyr gweithredol.

Byddwch:

- yn gweithredu fel "cyfaill beirniadol" annibynnol a dibynadwy, gan gynnig syniadau, her a sicrwydd;
- yn cyfrannu at system y Comisiwn o lywodraethu, rheoli risg a goruchwylio;
- yn cefnogi penderfyniadau effeithiol drwy roi cyngor annibynnol ar strategaeth, perfformiad a diwylliant sefydliadol; ac
- yn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i fod yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn dilyn ei werthoedd.

Bydd eich cyfraniad yn cael ei lywio gan eich arbenigedd a blaenoriaethau esblygol y Comisiwn.

## Yr ymrwymiad a'r hyblygrwydd


Gofynnwn i'n Cynghorwyr Annibynnol ymrwymo i oddeutu 15 diwrnod y flwyddyn; mae hyn fel arfer yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd, cymryd rhan mewn pwyllgorau cynghori, ymgysylltu ag uwch arweinwyr a chymryd rhan achlysurol mewn trafodaethau strategol, gweithgarwch recriwtio, a digwyddiadau dysgu.

Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, gyda hyblygrwydd i gefnogi gwahanol amgylchiadau.

Diolch i chi ymlaen llaw am fynegi diddordeb yn y rolau hyn. Edrychwn ymlaen at weld eich cais.

Yn gywir,





Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Cynnwys

**Croeso** 2

**Amdanom ni** 6

**Diben y swydd** 7

Rôl ein Cynghorwyr Annibynnol ... 7
Dyletswyddau / Cyfrifoldebau Craidd ... 8
Meini prawf penodol i'r swydd ... 9
Proffil yr ymgeiswyr llwyddiannus ... 10
Proffiliau Rôl Arbenigol ... 11

**Manylion y penodiad** 12

Tâl ... 12
Ymrwymiad ... 12
Hyd ... 12
Lleoliad ... 12
Statws ... 12
Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol ... 13
Cliriad diogelwch ... 13
Dyddiad dechrau ... 13
Telerau'r penodiad ... 14
Sut i wneud cais ... 14
Cyflwyno cais ... 14

**Ein Gwerthoedd** 16

**Ein hieithoedd swyddogol (Cymraeg a Saesneg)** 17

Atodiad – Pwyllgorau Cynghori ... 18

# Amdanom ni

## Beth mae’r Senedd yn ei wneud

Y Senedd (Senedd Cymru) yw’r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru (ar faterion nad ydynt wedi’u cadw’n ôl i Senedd y DU), i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae’n ddeddfwrfa un siambr sy’n cynnwys 96 o Aelodau. Mae’r Senedd yn gyfreithlon ar wahân i Lywodraeth Cymru.

## Rôl y Comisiwn

Comisiwn y Senedd yw’r corff corfforedig sy’n darparu’r eiddo, y staff a’r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd. Mae hefyd yn gyfrifol am dalu cyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau (ond nid am bennu eu lefelau), a gall arfer swyddogaethau eraill fel hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system etholiadol a'r system o lywodraeth ddatganoledig. Mae’r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod o’r Senedd a benodir gan y Senedd.

Mae'r Comisiwn yn atebol i’r Senedd am y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Caiff yr atebolrwydd hwn ei arfer mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys cwestiynau i’r Comisiwn ar gyfer atebion llafar ac ysgrifenedig, a gwaith craffu’r pwyllgorau ar gyllideb y Comisiwn, fel arfer gan y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn 2026/27 mae gan Gomisiwn y Senedd gyllideb o oddeutu £102m, a thua 540 o weithwyr.

Mae’r Comisiwn yn dirprwyo’i swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i Glerc y Senedd, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau penodol. Mae'r Comisiwn yn pennu’r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau'r Comisiwn. Y Clerc a’r Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu’r Comisiwn.

Y Bwrdd Gweithredol yw’r corff sy’n penderfynu ar yr holl faterion a ddirprwyir gan Gomisiwn y Senedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel corff cynghori i Gomisiwn y Senedd, i sicrhau ei fod yn cael y cyngor gorau posibl wrth iddo bennu ei strategaethau, ei nodau, ei flaenoriaethau, y gyllideb, ac wrth iddo wneud penderfyniadau. Y Clerc sy’n cadeirio'r Bwrdd Gweithredol ac mae'r aelodau’n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Prif Swyddog Pobl.

Mae’r Tîm Arwain yn gorff cynghori i’r Bwrdd Gweithredol ac mae’n gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau gweithredol, blaenoriaethau a threfniadau llywodraethu yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae’r Tîm Arwain yn cynnwys y tîm gweithredol a’r Penaethiaid Gwasanaeth.

### Sut rydym yn cael ein llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol i arwain gwaith y Comisiwn a'i staff. Er mwyn sicrhau y gall y Comisiwn a'r Clerc fanteisio ar amrywiaeth eang o brofiad i'w cynorthwyo i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn, mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol. Mae'r cynghorwyr hyn yn sicrhau bod y Comisiwn a thîm gweithredol y Senedd yn cael mewnwelediad gwrthrychol, her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol sy'n penderfynu ar gyflogau a chostau eraill yr Aelodau. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gweithredu ac am ddarparu ar eu cyfer yn ei gyllideb. Mae'r Clerc yn gyfrifol am ddewis ymgeiswyr i'w penodi i'r Bwrdd, sy'n cael eu penodi'n ffurfiol gan y Comisiwn.

Mae newid cyfansoddiadol wedi bod yn ffocws blaenllaw, a bydd yn parhau felly. Mae natur datganoli yng Nghymru, a safle'r Senedd yng nghyfansoddiad y DU, yn parhau i ddatblygu. Bydd datblygiadau cyfansoddiadol yn y dyfodol yn cael effaith sylfaenol ar y gofynion y bydd Comisiwn y Senedd yn eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod.

# Diben y swydd

## Rôl ein Cynghorwyr Annibynnol

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i roi cyngor, cymorth a her sy'n adeiladol, yn anwleidyddol ac o safon i'r Comisiwn a'i arweinwyr gweithredol. Mae Cynghorwyr Annibynnol yn cynnig arbenigedd allanol, barn annibynnol a safbwynt beirniadol i helpu i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn effeithiol, yn briodol ac yn cyd-fynd â'i gyfrifoldebau a'i werthoedd statudol.

Rôl ymgynghorol strategol yw hon. Nid yw Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd. Yn hytrach, maent yn cyfrannu at benderfyniadau effeithiol, llywodraethu cadarn, rheoli risg a goruchwyliaeth sefydliadol, gan helpu'r Comisiwn i ymateb i newid, gwella perfformiad a chynnal hyder y cyhoedd. Byddwch yn ymwneud yn bennaf â'r tîm arwain gweithredol.

Disgwylir i'r Cynghorwyr ddatblygu perthnasau adeiladol a chynnig her gefnogol ar draws busnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau bod pob agwedd ar strategaeth a darpariaeth yn destun craffu o safbwynt effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Maent yn cyfrannu at lywodraethiant corfforaethol, monitro perfformiad a chynnydd y sefydliad, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, ac yn cynnal trosolwg beirniadol o reolaethau a gweithdrefnau ariannol y sefydliad.

Rolau ymgynghorol ag effaith fawr yw’r rhain, sy'n cynnig y cyfle i wneud y canlynol:

- dylanwadu ar benderfyniadau strategol ar y lefel uchaf;
- cyfrannu at lywodraethu cryf ac effeithiol ar draws sefydliad cyhoeddus cymhleth;
- cefnogi’r Comisiwn i gyflawni ar ran Aelodau o’r Senedd, ac ar ran pobl Cymru yn y pen draw;
- helpu i lunio diwylliant, gwerthoedd a safonau ymddygiad sefydliadol ar draws y Senedd.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unigolion sy'n cynnig y canlynol:

- meddwl annibynnol a barn gadarn;
- y gallu i ymgysylltu mewn ffordd briodol ag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid;
- parodrwydd i herio mewn ffordd gefnogol ond cadarn; ac
- ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus ac Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Gofynnir i o leiaf un o'n Cynghorwyr newydd fod yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn, ac mae gennym ddiddordeb hefyd mewn ymgeiswyr sy'n cynnig arbenigedd o ran hyrwyddo a gwreiddio urddas, parch ac ymddygiadau cynhwysol mewn amgylcheddau sefydliadol a/neu wleidyddol cymhleth, gan gynnwys y gallu i herio mewn ffordd adeiladol mewn perthynas â diwylliant, ymddygiad a safonau.

Oherwydd bod anghenion y Comisiwn yn datblygu ac yn amrywio dros amser, mae'n anochel y bydd angen i natur y cyfraniadau y mae'n eu ceisio gan bob un o'r Cynghorwyr addasu.

Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r wybodaeth, y profiad a'r cymwyseddau y gallant eu cynnig i'r rôl wrth lenwi eu ffurflen gais.

## Dyletswyddau / Cyfrifoldebau Craidd

Bydd ein Cynghorwyr Annibynnol yn cyflawni’r rolau mewn nifer o ffyrdd, ac rydym wedi ymrwymo i fod yn hyblyg er mwyn galluogi unigolion sydd â’r sgiliau a’r profiad y byddem yn elwa ohonynt i gymryd rhan.

Bydd y Cynghorwyr Annibynnol:

- yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' annibynnol a dibynadwy i Gomisiwn y Senedd a'i arweinwyr gweithredol, gan gynnig syniadau treiddiol, sicrwydd a her adeiladol;

- yn cyfrannu at system llywodraethu corfforaethol y Comisiwn, gan gynnwys goruchwylio strategaeth, perfformiad, rheoli risg, rheolaeth fewnol a’r defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus;
- yn cefnogi’r gwaith o graffu ar gyflawniad y Comisiwn, gan sicrhau bod cynlluniau, penderfyniadau a blaenoriaethau sefydliadol yn cael eu profi o safbwynt effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth ag amcanion y Comisiwn;
- yn rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion o fewn maes arbenigedd y Cynghorydd, gan gynnwys materion sy'n dod i'r amlwg, newid strategol a datblygiad sefydliadol;
- yn cymryd rhan weithredol mewn pwyllgorau a chyfarfodydd ymgynghorol perthnasol (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg), a fforymau ymgynghorol eraill yn ôl yr angen;
- yn cynnig mewnbwn strategol i flaenoriaethau pobl a diwylliant (gan gynnwys strategaeth y gweithlu lle bo'n berthnasol);
- yn cyfrannu at ddarnau penodol o waith o bryd i'w gilydd, a all gynnwys gweithgarwch recriwtio ar gyfer rolau uwch, adolygiadau strategol, cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu, neu roi cyngor ysgrifenedig byr ar faterion penodol;
- yn meithrin perthnasoedd adeiladol â’r Comisiynwyr, uwch arweinwyr a’r Cynghorwyr, gan gynnal annibyniaeth barn; ac
- yn hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad, cynhwysiant, urddas a pharch, ac yn cefnogi uchelgais y Comisiwn i feithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol.

Bydd cwmpas y gweithgarwch yn amrywio dros amser yn unol â blaenoriaethau sefydliadol ac arbenigedd unigol.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Er mwyn cyflawni rôl Cynghorydd Annibynnol, bydd croeso i ymgeiswyr ag ystod amrywiol o brofiad a chefndiroedd, gan gynnwys:

- profiad o herio ar lefel uwch mewn ffordd annibynnol, cytbwys ac adeiladol;

- profiad arwain uwch neu gynghori mewn sefydliad cymhleth;
- y gallu i ddeall cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a sefydliadol yn gyflym;
- hanes o newid, arloesi neu drawsnewid sefydliadol;
- hygrededd personol a phresenoldeb cryf i ddylanwadu ar lefel Bwrdd a'r weithrediaeth;
- ymrwymiad clir i werthoedd gwasanaeth cyhoeddus, uniondeb, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; a
- barn ddadansoddol gref a'r gallu i weithredu mewn amgylcheddau cymhleth.

Rydym yn croesawu ymgeiswyr sy'n cynnig arbenigedd manwl mewn o leiaf un o'r meysydd blaenorol, a phersbectif eang ar draws sawl un ohonynt.

## Proffil yr ymgeiswyr llwyddiannus

Ein nod yw sicrhau amrywiaeth ymhlith ein Cynghorwyr Annibynnol drwy dynnu ar ystod eang o gefndiroedd, safbwyntiau a phrofiadau. Yr ymgeiswyr llwyddiannus fydd yr unigolion sy'n bodloni'r adran meini prawf a restrir yn y fanyleb rôl uchod orai ac sydd ag arbenigedd, profiad neu ddealltwriaeth berthnasol. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gennych chi os oes gennych sgiliau, arbenigedd neu brofiad yn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- trawsnewid corfforaethol, rheoli newid a dylunio sefydliadol;
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Urddas a Pharch
- rheoli ariannol yn enwedig gyda phrofiad archwilio;
- sicrwydd / rheoli risg;
- TGCh a thrawsnewid digidol;
- cyfathrebu ac ymgysylltu; ac
- uwch arweinyddiaeth weithredol.

## Proffiliau Rôl Arbenigol

O fewn y garfan o gynghorwyr yr ydym am eu penodi eleni a'r flwyddyn nesaf, nodwyd dwy rôl ag arbenigedd penodol.

### Arbenigedd ym maes cyllid/archwilio

Er mwyn dilyn yr arfer gorau a amlinellir yn Llawlyfr Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EM, dylai o leiaf un o aelodau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn feddu ar gymhwyster cyllid, cyfrifyddiaeth neu archwilio cydnabyddedig, ynghyd â phrofiad helaeth mewn un neu fwy o'r meysydd hynny. Byddwn yn cadw hyn mewn cof yn ystod ein prosesau dethol.

Yn ogystal â'r fanyleb graidd a nodir uchod, dyma'r meini prawf ychwanegol ar gyfer arbenigedd cyllid/archwilio:

- Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig ym maes cyllid, cyfrifeg a/neu archwilio, ac arbenigedd lefel uwch mewn un neu fwy o'r meysydd hynny.
- Y gallu i graffu ar wybodaeth ariannol, cyfrifon blynyddol, canfyddiadau archwilio a thystiolaeth sicrwydd, ac asesu a yw rheolaethau'n gadarn, yn gymesur ac yn amddiffynadwy.
- Dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus, priodoldeb, rheoleidd-dra, gwerth am arian ac atebolrwydd.
- Yr hyder i herio uwch arweinwyr mewn ffordd adeiladol ynghylch stiwardiaeth ariannol, risg sefydliadol, bylchau sicrwydd a chyflymder gweithgarwch gwella.

### Urddas a Pharch

Mae'r Comisiwn yn chwilio am Gynghorydd Annibynnol sydd ag arbenigedd sylweddol ym meysydd urddas a pharch, diwylliant sefydliadol ac arfer cynhwysol. Bydd y Cynghorydd hwn yn cynnig syniadau strategol ac yn cefnogi'r Comisiwn i gryfhau a gwreiddio'r diwylliant, y fframweithiau a'r trefniadau sicrwydd sy'n helpu i sicrhau bod y Senedd yn lle i bobl gael eu trin ag urddas, parch a thegwch bob dydd.

Yn ogystal â'r fanyleb graidd a nodir uchod, dyma'r meini prawf ychwanegol ar gyfer arbenigedd urddas a pharch:

- Arbenigedd proffesiynol neu brofiad byw sylweddol mewn meysydd perthnasol fel urddas a pharch, diwylliant sefydliadol/y gweithlu, cwynion neu fframweithiau ymddygiad, neu atal bwlio ac aflonyddu.

- Dealltwriaeth o sut y gellir datblygu sicrwydd mewn perthynas ag urddas a pharch, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth, adborth, adrodd, gwybodaeth am risg, hyfforddiant ac adolygu polisïau.
- Y gallu i herio yn sensitif, yn feddylgar ac yn adeiladol mewn perthynas â materion a allai fod yn rhai cymhleth, cyfrinachol ac a allai gael effaith fawr ar unigolion a'r sefydliad.

# Manylion y penodiad

## Tâl

£5,000 y flwyddyn (amhensiynadwy) yn ogystal â £2,000 ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau Cadeirio pwyllgor cynghori yw'r tâl ar gyfer y rôl.

## Ymrwymiad

Fel arfer disgwylir i'r ymrwymiad i'r swydd fod tua 15 diwrnod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd, mynychu pwyllgorau cynghori a chyfarfodydd eraill, ymgysylltu ag uwch arweinwyr a staff, a chymryd rhan yn achlysurol mewn recriwtio, trafodaethau strategol, hyfforddiant neu ddigwyddiadau.

## Hyd

Bydd Ymgynghorwyr Annibynnol y Comisiwn yn cael eu penodi am hyd at dair blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 3 blynedd arall, yn dibynnu ar yr angen.

## Lleoliad

Cynhelir cyfarfodydd mewn cymysgedd o amgylcheddau wyneb yn wyneb, rhithwir a hybrid. Rydym wedi ymrwymo i greu strwythur ac amgylchedd gwaith cynhwysol. Bydd cymorth yn cael ei ystyried i sicrhau bod unigolion y mae eu gallu i gymryd rhan yn gyfyngedig.

## Statws

Deiliaid swyddi anweithredol Comisiwn y Senedd yn hytrach na gweithwyr Comisiwn y Senedd.

## Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol

Mae cynghorwyr yn gwasanaethu mewn swyddogaeth anweithredol, anwleidyddol a disgwylir iddynt ddatgan a rheoli unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, boed yn rhai gwirioneddol neu'n rhai posibl.

- Er mwyn osgoi'r risg o wrthdaro buddiannau, ni fydd unigolion yn y rolau canlynol yn cael eu hystyried ar gyfer eu penodi: Aelodau o'r Senedd neu'r rheini sy'n ymgeisio i fod yn Aelodau o'r Senedd;
- Aelodau etholedig o gyrff seneddol eraill y DU;
- Aelodau o staff Comisiwn y Senedd neu staff Llywodraeth Cymru a phobl a gaiff eu cyflogi gan Aelodau'r Senedd neu grŵp o Aelodau'r Senedd;
- Aelodau o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- Y Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'r person hwnnw'n Aelod o'r Senedd);
- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Comisiynydd Safonau y Senedd;
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Unigolyn sy'n cyflawni swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau arall a ganfyddir yn ystod y broses ymgeisio hefyd yn cael ei ystyried wrth ystyried ymgeiswyr i'w penodi.

## Cliriad diogelwch

Yn dilyn asesiad, penderfynwyd bod angen fetio diogelwch ar lefel 'SC' ar gyfer y swydd hon. O ran yr ymgeiswyr nad oes ganddynt gliriad ar y lefel hon ar hyn o bryd, byddent yn cael eu penodi yn amodol ar gwblhau'r fetio diogelwch yn llwyddiannus ar y lefel hon.

## Dyddiad dechrau

Disgwylir i ddau berson a benodir fod ar gael i ymgymryd â'u rôl erbyn diwedd mis Tachwedd 2026. Disgwylir i hyd at dri pherson arall a benodir ddechrau erbyn diwedd mis Tachwedd 2027.

## Telerau'r penodiad

Gwneir penodiadau gan Gomisiwn y Senedd.

Bydd telerau penodi'r Cynghorwyr Annibynnol yn cael eu nodi'n ysgrifenedig iddynt ar adeg eu penodi.

Mae'n ofynnol i'n holl Gynghorwyr Annibynnol ddeall a chroesawu 'Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus' fel y'u diffinnir gan Bwyllgor Nolan. Disgwylir i Gynghorwyr Annibynnol weithredu ar sail gyfrinachol ac yn unol â gwerthoedd ac ymrwymiad Comisiwn y Senedd i feithrin urddas a pharch.

## Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd neu anabledd, o bob cefndir a gyda llawer o sgiliau, profiad a safbwyntiau gwahanol. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at amrywiaeth a chynhwysiant ar ein gwefan.

At hynny, rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac mae gennym gynllun gwarantu cyfweliad ar waith, lle rydym yn sicrhau cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl.

Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, yn dilyn proses deg a thryloyw.

Mae pob cais yn ddienw hyd at y cam cyfweliad er mwyn osgoi rhagfarn.

## Cyflwyno cais

- Gallwch wneud cais trwy gyflwyno CV, a datganiad ategol sy'n amlinellu'r hyn wnaeth eich cymell i wneud cais am y rôl, a sut rydych yn bodloni'r fanyleb person (dim mwy na 2 ochr A4 o hyd). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r gofynion allweddol a nodir ym manyleb y person. Bydd addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer y rolau yn cael ei asesu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir drwy gydol y broses ddethol.
- Rhowch fanylion dau ganolwr – dim ond gyda'ch caniatâd ac os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer y byddwn yn cysylltu â'r canolwyr.
- Llenwch a chyflwynwch y ffurflen Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol ynghyd â'ch CV a'ch datganiad ategol. Bydd hyn yn caniatáu inni wirio am rolau, swyddi neu fuddiannau eraill a allai fod yn anghydnaws â'r rôl o Gynghorydd Annibynnol.
- Llenwch a chyflwynwch hefyd y ffurflen monitro Cyfleoedd Cyfartal. Rydym am sicrhau bod ein holl swyddi yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned a byddwn yn defnyddio'r data hyn i fonitro ein cynnydd wrth wneud hynny.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais erbyn y dyddiad cau a nodir isod. Ni chaiff unrhyw geisiadau eu derbyn unwaith y bydd y broses o lunio rhestr hir yn mynd rhagddi.

- Ar ôl llunio rhestr hir, bydd Tîm Recriwtio’r Senedd yn cysylltu’n uniongyrchol â chi â’r wybodaeth ddiweddaraf am statws eich cais.

- Cysylltwch â ni drwy anfon neges at swyddi@senedd.cymru cyn gynted â phosibl ar gyfer sgwrs gyfrinachol os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon. Gallwn hefyd drafod pa addasiadau yr hoffech iddynt gael eu gwneud petaech yn cael eich penodi er mwyn i chi allu cyfranogi’n llawn.

- Rhaid cyflwyno ceisiadau i swyddi@senedd.cymru

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Hysbyseb yn agor: | Yr wythnos sy’n dechrau 13 Gorffennaf 2026 |
| Hysbyseb yn cau: | Dydd Gwener 21 Awst 2026 |
| Llunio’r rhestr hir: | yr wythnos yn dechrau 24 Awst 2026 |
| Llunio'r rhestr fer: | yr wythnos yn dechrau 7 Medi 2026 |
| Cyfweliadau Terfynol: | yr wythnos yn dechrau 14 Medi 2026 |

Os hoffech gael trafodaeth gychwynnol am y rolau hyn, cysylltwch â Manon.Bonner@Senedd.Cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y broses recriwtio, cysylltwch â swyddi@senedd.cymru

# Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn rhan o bopeth a wnawn. Gyda'n gilydd, rydym wedi creu cyfres o werthoedd sy'n dathlu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, ac sy'n ein hatgoffa o bwy yr ydym a'r hyn sy'n bwysig inni.



**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol



**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru



**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

## UN TÎM YDYM NI

Edrychwn ymlaen at weld sut y mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd ni, er mwyn i chi allu ein helpu i feithrin diwylliant cadarnhaol a chynhwysol.

# Ein hieithoedd swyddogol (Cymraeg a Saesneg)

Rydym yn gwbl ymrwymedig i wella ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn barhaus ac i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau o’r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio’r naill iaith swyddogol neu’r llall, neu’r ddwy iaith, a lle caiff y defnydd o’r ddwy iaith ei annog a’i hwyluso'n rhagweithiol.

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'n staff fod yn rhugl yn ein dwy iaith swyddogol, rydym yn disgwyl iddynt oll ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn ein hieithoedd swyddogol. I’r graddau hynny, rydym yn disgwyl i bob aelod o staff sy’n cael ei benodi gan y Senedd fod â sgiliau lefel cwrteisi yn y Gymraeg, neu i gaffael y sgiliau hyn yn ystod cyfnod y cytunir arno.

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) sefydledig sy'n cyfarfod yn rheolaidd a'r Pwyllgor Taliadau. Mae pwyllgorau cynghori yn adrodd yn flynyddol i'r Comisiwn.

Ni ddylai'r pwyllgorau cynghori fod ag unrhyw gyfrifoldebau gweithredol ac ni ddylai fod yn gyfrifol am wneud na chymeradwyo unrhyw benderfyniadau.

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

Diben y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Clerc, yr uwch reolwyr a'r Comisiwn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli risg y sefydliad. I'r perwyl hwn, disgwylir i'r Pwyllgor roi cyngor ar y canlynol:

1. y prosesau strategol ar gyfer rheoli a llywodraethu risg a'i Ddatganiad Llywodraethu;

2. polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd;

3. y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;

4. a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y llythyr rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;

5. sicrwydd yn ymwneud â rheoli risgiau corfforaethol a gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad;

6. cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;

7. polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**Y Pwyllgor Taliadau**

Caiff y Pwyllgor ei awdurdodi gan y Comisiwn i ystyried materion yn ymwneud â thaliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a gwneud argymhellion yn hyn o beth. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw argymhellion neu gynigion gan y Clerc ynghylch tâl a materion eraill yn ymwneud â thaliadau a gwobrwyon ar gyfer uwch swyddi ac yn rhoi sylwadau arnynt.

Mae swyddogaethau'r Pwyllgor yn cynnwys cynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau safonau uchel o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol bob amser drwy ystyried argymhellion a chynigion ar:

1. y strategaeth a'r fframwaith cyflog (gan gynnwys graddfeydd cyflog) ar gyfer tâl y Clerc a'r Cyfarwyddwyr; a

2. strategaeth taliadau a gwobrwyon ar gyfer holl staff Comisiwn y Senedd.